

Hawdd ei Ddeall



Plaid Cymru
Party of Wales

Maniffesto Llywodraeth Leol Plaid Cymru 2022

Beth rydyn ni eisiau ei wneud dros Gymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Plaid Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Maniffesto Llywodraeth Leol Plaid Cymru 2022'.

Mawrth 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r gair yn feddwl ar . **dudalen 19**.



Lle mae'r dogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Plaid Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Gwefan: www.plaid.cymru

E-bost: post@plaid.cymru

Ffôn: 029 2047 2272



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

Cynnwys

Tudalen

Am Plaid Cymru	4
Gwneud gwahaniaeth.....	5
Cadw arian yn lleol.....	7
Cymunedau iach, gofalgar	9
Y cychwyn gorau mewn bywyd.....	14
Yr amgylchedd a'n cymunedau.....	16
Geiriau anodd	19

Am Plaid Cymru



Helo, Fi ydy Adam Price, Arweinydd **Plaid Cymru**. Dyma ein **manifffesto**.

Dogfen ydy **manifffesto** sydd yn dweud:

- Dros beth rydyn ni'n sefyll
- Beth rydyn ni eisiau i ddigwydd



Rydyn ni'n caru Cymru ac rydyn ni eisiau gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.



Rydyn ni eisiau dweud wrthych chi am rai o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud nawr ac eisiau eu gwneud yn y dyfodol.

Gwneud gwahaniaeth



Y flwyddyn yma rydyn ni wedi llwyddo i gael **£200 miliwn** i dalu am brydau bwyd ysgol am ddim i **bob** plentyn ysgol gynradd.



Fe fydd ein hawdurodau lleol yn gweithio i gael [rydau bwyd ysgol am ddim i bob **disgybl ysgol uwchradd** hefyd. Rydyn ni eisiau i holl blant ysgol ar draws Cymru gael prydau bwyd ysgol am ddim.



Rydyn ni'n mynd i wneud gofal plant am ddim ar gael i bob plentyn 2 oed.



Rydyn ni eisiau delio gyda'r argyfwng tai. Dydy pobl ddim yn gallu fforddio prynu neu rhentu tai yn eu hardaloedd lleol. Ac mae gormod o ail gartrefi yn ein cymunedau, yn wag am rhan fwyaf o'r flwyddyn.



Rydyn ni'n adeiladu rhagor o **dai cymdeithasol** a fydd yn helpu pobl i arbed arian ar filiau ynni.

Tai cymdeithasol ydy cartrefi i bobl maen nhw'n gallu fforddio talu amdanyn nhw.



Fe fydd y **tai cymdeithasol** hefyd yn well i'r **amgylchedd**.


Yr **amgylchedd** ydy'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.



Rydyn ni'n gwneud popeth rydyn ni'n gallu i leihau'r nifer o ail gartrefi yng Nghymru.



Rydyn ni'n gwneud cwmni ynni Cymreig newydd o'r enw **Ynni Cymru**. Fe fydd yna gynlluniau ynni sydd yn berchen i'r gymuned ac sydd yn well i'r **amgylchedd**.



Pwy bynnag ydych chi, lle bynnag rydych chi, pa bynnag iaith rydych chi'n ei siarad - rydych chi'n gallu ymddiried yn **Plaid Cymru** i wneud gwahaniaeth i chi, eich teulu a'ch cymuned.

Cadw arian yn lleol

Rydyn ni eisiau amddiffyn pobl rhag costau byw sydd yn codi

Rydyn ni'n gallu helpu pobl drwy:



- Cymryd perchnogaeth dros wneud ynni yn lleol. Fel nwy a thrydan
- Gwneud i gartrefi pobl ddefnyddio ynni yn well. Er mwyn inni gadw'n gynnes, coginio a goleuo cartrefi gan ddefnyddio llai o ynni
- Cefnogi busnesau lleol ac amddiffyn swyddi

Rydyn ni eisiau cadw busnes yn lleol



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod ein cynghorau yn defnyddio busnesau lleol ac yn gwario eu harian yn lleol.

Rydyn ni eisiau i ganol ein trefi fod yn
leoedd gwych i fyw, siopa a gweithio
ynddyn nhw



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod yna
ofod cymunedol, llyfrgelloedd a pharciau
da.



Fe fyddwn ni'n gwneud gofod newydd i
bobl weithio gyda'i gilydd mewn trefi.
Mae'r rhain yn cael eu galw yn **ofod
cydweithio**.



Fe fyddwn ni yn gwneud cerdded a seiclo
yn fwy hawdd yn ein trefi.



Cymunedau iach, gofalgar

Rydyn ni eisiau gwneud gwasanaethau gofal yn well i'r bobl sydd yn eu defnyddio nhw ac i'r staff sydd yn gweithio ynddyn nhw




Rydyn ni'n meddwl bod angen i wasanaethau gofal fod mor dda â gwasanaethau iechyd. Rydyn ni hefyd yn meddwl y dylai staff gofal gael eu talu yn dda, fel staff yn y **GIG**



Rydyn ni eisiau cael **Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol** sydd mor dda â'r **GIG**. Fe fyddai'r 2 wasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd i wneud pethau yn well i bobl

Rydyn ni eisiau gwneud pethau yn fwy cyfartal fel bod pawb yn gallu byw bywyd hir ac iach



Mae Covid-19 wedi bod yn waeth i bobl fwy tlawd. Dydy hyn ddim yn deg.



Ein nod ydy helpu pawb i fyw bywyd iach, beth bynnag ydy eu cefndir.



I wneud hyn, fe fyddwn ni yn ei gwneud yn fwy hawdd i bobl gerdded a seiclo. A gwneud trafnidiaeth cyhoeddus yn well.



Fe fyddwn ni yn rhoi arian i wasanaethau sydd yn helpu pobl ifanc fel Gwasanaethau Ieuencid a Chanolfannau Ieuencid



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod staff llywodraeth leol yn cael cefnogaeth ar gyfer eu iechyd a llesiant yn y gwaith. Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr eu bod nhw yn gallu defnyddio pethau fel canolfannau hamdden a chlybiau chwaraeon. Fe fyddwn ni yn edrych ar sut rydyn ni'n gallu cefnogi staff mewn busnesau lleol yn y ffordd yma hefyd



Fe fyddwn ni yn rhoi cyfle i blant ddysgu a chwarae mwy yn yr awyr agored.



Fe fyddwn ni yn helpu meddygon a nyrsus i ddweud wrth bobl am leoedd yn y gymuned sydd yn gallu eu cefnogi nhw. Fel grwpiau garddio a chwaraeon.

Rydyn ni eisiau ei gwneud yn fwy hawdd i bobl gael cefnogaeth iechyd meddwl



Rydyn ni'n gweithio gyda **Llywodraeth Cymru** i gael rhagor o arian ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc ac oedolion.

Rydyn ni eisiau i bobl yng Nghymru fod yn gyfartal



Rydyn ni'n meddwl bod newid pethau sydd ddim yn deg yn ffordd rydyn ni'n gallu helpu i wneud pobl yn gyfartal.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil** a **Chynllun Gweithredu LGBTQ+**.

Mae **hil** am bobl sydd yn dod o wledydd neu ddiwylliannau eraill, sydd efallai yn byw mewn ffordd wahanol neu sydd â chroen o liw gwahanol.

LGBTQ+ ydy'r term ar gyfer pobl sydd yn lesbiad, hoyw, deurywiol, trawsrywiol neu queer.



Rydyn ni eisiau gwneud **Deddf Awtistiaeth** sydd yn dweud wrth bobl am hawliau pobl awtistig.

Rydyn ni eisiau gwneud pethau yn well i bobl anabl



Mae Covid-19 a'r ffordd y cafodd ei ddelio wedi mynd yn erbyn **hawliau dynol** rhai pobl anabl

Hawliau dynol ydy hawliau sydd gan bawb, Er enghraifft, yr hawl i fod yn fyw a'r hawl i gael addysg.



Fe fydd ein **Ymchwiliad Covid Cymru'n Unig** yn edrych ar beth wnaeth ddigwydd. A sut aeth pethau o chwith i bobl anabl .



Rydyn ni'n meddwl y bydd yn bwysig dod â **Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** i mewn i'n cyfraith, i helpu i amddiffyn pobl.



Pan rydyn ni yn adeiladu gofod newydd yn ein trefi fe fyddwn ni yn edrych i weld os ydyn nhw yn gweithio yn dda i bobl anabl cyn iddyn nhw gael eu datblygu.



Gyda **Llywodraeth Cymru**, fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod rhagor o bobl yn gwybod am hawliau pobl anabl. Fe fyddwn ni yn helpu i wneud pethau yn deg i bobl anabl.



Y cychwyn gorau mewn bywyd

Prydau bwyd ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd



Diolch inni, mae pob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru yn gallu cael pryd bwyd ysgol am ddim o Medi 2022. Rydyn ni eisiau i blant ysgol o bob oed gael pryd bwyd ysgol am ddim.



Rydyn ni eisiau i brydau bwyd ysgol gael eu gwneud o fwyd sydd wedi cael ei dyfu yn lleol yng Nghymru.

Gofal plant am ddim i bob plentyn 2 oed



Diolch inni, fe fydd pob plentyn 2 oed yn cael gofal plant am ddim cyn hir.

Rydyn ni yn gwerthfawrogi ein hathrawon a staff ein hysgolion



Llywodraeth Cymru sydd yn rheoli faint mae staff addysgu yn cael eu talu. Ond mae cyngorau lleol yn gallu gwneud pethau yn well mewn ysgolion drwy:



- Cael rhagor o gynorthwywyr dysgu i helpu plant yn y dosbarth.
- Rhoi digon o amser i athrawon wneud eu gwaith.
- Helpu athrawon i gymryd cyrsiau hyfforddi.

Rydyn ni eisiau i ragor o bobl siarad Cymraeg



Rydyn ni eisiau rhoi cyfle i bob plentyn siarad Cymraeg. Rydyn ni eisiau cael **Deddf Iaith Gymraeg** i'n helpu ni i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yr amgylchedd a'n cymunedau

Rydyn ni eisiau i Gymru gael llawer o gynlluniau ynni gwyrdd sydd yn berchen i'r gymuned



Rydyn ni'n meddwl bod digon o **ynni adnewyddadwy** yn gallu cael ei wneud i bweru Cymru gyfan erbyn 2034. Fe fydd ein cwmni ynni newydd **Ynni Cymru** yn helpu gyda hyn.

Ynni adnewyddadwy ydy gwneud pethau fel trydan allan o bethau sydd ddim yn rhedeg allan. Fel yr haul, dŵr a gwynt

Rydyn ni eisiau ymladd yr argyfwng tai



Dyma'r ffyrdd rydyn ni'n gweithio gyda **Llywodraeth Cymru** i wneud tai yn well.



Rydyn ni yn gwneud cwmni adeiladu Cymreig newydd o'r enw **Unnos**. Fe fydd yn helpu i wneud rhagor o **dai cymdeithasol**.



Rydyn ni eisiau i bawb gael cartref.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod digon o dai ar gyfer pobl yn eu cymunedau. Felly rydyn ni eisiau gweld llai o ail gartrefi.



Rydyn ni eisiau newid cyfraith tai i helpu i wneud prisiau rhent yn deg.

Rydyn ni eisiau gwneud trafnidiaeth yn well i'r amgylchedd



Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn wlad hapus, iach sydd yn edrych ar ôl ein **amgylchedd**.



Fe fydd gwneud trafnidiaeth cyhoeddus yn llai niweidiol i'r **amgylchedd** yn ein helpu ni i gyrraedd y nod yma.



Rydyn ni eisiau gweld llai o geir sydd yn rhedeg ar betrol a diesel. Rydyn ni eisiau i'r teithiau mewn car fynd i lawr o hanner erbyn 2030.



Fe fyddwn ni yn ei gwneud yn fwy hawdd i bobl gael car trydan drwy wneud rhagor o leoedd lle maen nhw'n gallu cael eu gwefru



Geiriau anodd

Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

Hawliau Dynol

Hawliau dynol ydy hawliau sydd gan bawb. Er enghraifft yr hawl i fod yn fyw a'r hawl i gael addysg

LGBTQ+

LGBTQ+ ydy'r term am bobl sydd yn lesbiad, hoyw, deurywiol, trawsrywiol neu queer.

Manffesto

Manffesto ydy dogfen sydd yn dweud:

- Dros beth rydyn ni'n sefyll
- Beth rydyn ni eisiau i ddigwydd

Hil

Mae hil am bobl sydd yn dod o wledydd neu ddiwylliannau eraill, sydd efallai yn byw mewn ffordd wahanol neu sydd â chroen o liw gwahanol .

Ynni adnewyddadwy

Ynni adnewyddadwy ydy gwneud pethau fel trydan o bethau sydd ddim yn rhedeg allan fel haul, dŵr a gwynt

Tai cymdeithasol

Tai cymdeithasol ydy cartrefi i bobl maen nhw'n gallu fforddio talu amdany'n nhw.